cta
cymru
wales

Cymdeithas
Cludiant
Cymunedol

Community
Transport
Association

Rhoi Cychwyn Arni

Pecyn Cymorth ar gyfer cychwyn gwasanaeth Cludiant Cymunedol



cta cymru wales
Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Community Transport Association

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad 3
1.1 Beth yw Cludiant Cymunedol? 3
1.2 Pam mae cludiant cymunedol yn bwysig? 4
1.3 Dewisiadau o ran Cludiant Cymunedol 5
2.0 Rhoi cychwyn arni 6
2.1 Cam Un: Sefydlu gweithgor 7
2.2 Cam Dau: Deall eich cymuned 7
2.3 Cam Tri: Dewis y math gorau o wasanaeth cludiant cymunedol 8
2.4 Cam Pedwar: Pwy fydd yn rhedeg y gwasanaeth? 8
2.5 Cam Pump: Sut caiff y gwasanaeth/sefydliad ei ariannu? 9
2.6 Cam Chwech: Datblygu Cynllun Gweithredu 10
2.7 Cam Saith: Sicrhau Ansawdd 122
3.0 Cefnogaeth a chymorth pellach 12
ATODIAD A 13
Holiadur Anghenion o ran Cludiant 13
Atodiad B 16
Templed Cynllun Gweithredu 16

[Tudalen wag]

1.0 Cyflwyniad

Mae CTA Cymru wedi datblygu'r pecyn cymorth hwn i gefnogi unigolion a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael ag anghenion o ran cludiant a nodwyd ar lefel gymunedol.

Cyn datblygu cynllun cludiant cymunedol newydd, rydym yn argymell i chi fynd at eich gweithredwr cludiant cymunedol agosaf yn y lle cyntaf ac mae'n bosibl y gallent roi ateb i chi ar unwaith.

Mewn sefyllfaoedd lle na all gweithredwyr presennol fodloni'r angen a nodwyd ar gyfer cludiant cymunedol, bydd y pecyn cymorth hwn yn eich arwain trwy'r camau cyntaf o ran sefydlu cynllun cludiant cymunedol newydd.

Mae CTA Cymru'n deall y gall cychwyn gwasanaeth cludiant cymunedol ymddangos yn hynod anodd, ond gallwn ni eich cefnogi chi bob cam o'r ffordd. Rydym yn darparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad, i helpu cymunedau i greu atebion cludiant lleol ac ymatebol i'r bobl sydd eu hangen.

Gall CTA Cymru helpu mewn nifer o ffyrdd:

- Rhoi gwybodaeth ar rôl a gwerth cludiant cymunedol;
- Rhoi gwybodaeth ar opsiynau gwahanol;
- Cynnig hyfforddiant;
- Rhoi cefnogaeth datblygu cymunedol trwy gydol y broses cychwyn;
- Rhoi templedi defnyddiol ar gyfer llywodraethu, gan gynnwys sefydlu.

1.1 Beth yw Cludiant Cymunedol?

Mae cludiant cymunedol yn ddull cludo sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn gost-effeithiol, yn hyblyg ac yn cael ei redeg gan y gymuned ar gyfer y gymuned. Gall gael ei ddatblygu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â bylchau yn y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus a thrwy hyn, greu manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n para.

Mae cludiant cymunedol o werth arbennig i bobl nad oes car neu gludiant cymunedol o fewn cyrraedd hwylus iddynt am amrywiaeth o resymau. Mae'n gwbl allweddol mewn ardaloedd gwledig a threfol, bod rhaid diwallu amrywiaeth o anghenion fel cludo pobl anabl i'r gwaith, plant i'r ysgol, pobl i ofal iechyd a phobl hŷn i'r siopau.

Mae gwasanaethau cludiant cymunedol yn amrywiol iawn (gw. adran 1.3) ac yn cael eu datblygu i gyd-fynd ag amgylchiadau pob sefyllfa. Mae cludiant cymunedol, sy'n amrywio o gynlluniau ceir bach iawn gyda gwirfoddolwyr yn defnyddio eu cerbydau eu hunain, i lwybrau bysiau ffurfiol iawn gydag amserlenni, yn darparu cysylltau hanfodol sy'n cynnig cydraddoldeb o ran cyfle i bawb.

Mae cludiant cymunedol yn dod â chymunedau at ei gilydd ac yn ymgysylltu â nhw, gan gynnig gwasanaethau sy'n cael eu llunio gan y bobl sydd eu hangen ac yn harneisio profiad ac egni gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser am ddim er mwyn helpu eraill. Mae llwyddiant cynlluniau cludiant cymunedol ar draws y DU yn dangos yr hyn y gellir ei wneud pan fydd pobl leol yn cymryd cyfrifoldeb am ddatrys problemau lleol.

1.2 Pam mae cludiant cymunedol yn bwysig?

Mae medru cael mynediad hawdd at gludiant addas yn rhywbeth mae llawer ohonon ni'n ei gymryd yn ganiataol; rydyn ni'n cynllunio ein bywyd yn y gwaith a chartref heb orfod ystyried sut medrwn ni fynd o A i B. Dychmygwch geisio byw bywyd heb ddefnyddio car, bws neu dacsi. Mae cludiant yn rhan hanfodol o fywyd cyfoes. Heb allu cael mynediad at ofal iechyd, addysg, gwaith, hamdden, mae'n bosibl na fedrwn fyw bywyd hapus a llawn.

Sut byddech chi'n gwneud y canlynol heb fedru cael mynediad at gludiant addas?

- Mynd i apwyntiad mewn ysbyty neu gyda'r meddyg
- Mynd i'r fferyllfa i nôl meddyginiaeth
- Mynd i'r siopau a dod â'ch siopa adref
- Mynd i gyfleusterau hamdden a diwylliannol e.e. llyfrgell, bingo, canolfan chwaraeon, sinema a.a.
- Mynd i gyfweliad am swydd neu dderbyn swydd newydd
- Mynd i hyfforddiant mewn coleg neu ganolfan hyfforddi arall
- Mynd i ymweld â ffrindiau os ydy'n anodd i chi gerdded
- Mynd â'ch plant i'r ysgol

Yn aml, mae pobl sy'n methu â chael at gludiant addas yn eu cael eu hunain mewn cylch anobaith, yn methu â gwneud y pethau mae angen iddyn nhw eu gwneud a phryd mae angen iddyn nhw eu gwneud. Gall y canlyniadau o ran iechyd a lles fod yn bellgyrhaeddol gan gynnwys arwahanu cymdeithasol, unigrwydd, iselder, diffyg maeth, tlodi a diweithdra.

Mae llawer o resymau pam mae pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gludiant:

- Dydy llwybrau cludiant cyhoeddus ddim yn mynd ble mae eu hangen arnoch chi (neu maen nhw'n cymryd gormod o amser)
- Pobl sy'n gweithio patrymau shifft ac angen cyrraedd y gwaith/gartre pan nad yw'r bysiau'n rhedeg
- Materion yn ymwneud â symudedd h.y. mae defnyddio cludiant cyhoeddus yn anymarferol neu'n amhosibl
- Tlodi – yn methu â fforddio rhedeg car neu'n methu â fforddio'r tocynnau teithio
- Byw mewn ardaloedd ynysig lle nad yw'r llwybrau bysiau'n hyfyw i'r cwmni bysiau lleol
- Marwolaeth partner neu ffrind roeddech chi'n dibynnu arnyn nhw am gludiant
- Teimlo'n anniogel ar gludiant cyhoeddus gyda'r hwyr

Mae cludiant cymunedol yn bwysig oherwydd y gall gynnig atebion i lawer o'r rhwystrau y gall pobl eu hwynebu o ran cludiant.

- Mae gwasanaethau cludiant cymunedol yn cael eu datblygu i gwrdd ag anghenion unigol penodol;
- Mae cludiant cymunedol ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf;
- Gall cludiant cymunedol ddarparu gwasanaeth o ddrws i ddrws;
- Yn aml, gall cludiant cymunedol gynnig cerbydau sy'n gwbl hygyrch, wedi'u haddasu i wneud teithio'n haws i'r rhai ag anghenion o ran symudedd.

- Gall cludiant cymunedol gynnig gwasanaeth i'r unigolyn fel cario'r siopa i'r drws ffrynt neu gymorth gyda chadair olwyn;
- Yn aml, mae cludiant cymunedol yn fwy fforddiadwy gan ei fod gweithredu'n ddielw gyda thocynnau teithio sydd ond yn cynnwys gwir gostau teithio;
- Gall cludiant cymunedol gynnig trafnidiaeth pan fydd ei hangen arnoch fwyaf.

O ganlyniad, mae manteision economaidd-gymdeithasol pellgyrhaeddol i gludiant cymunedol sy'n gweithio gyda'r rhai ar ymylon cymdeithas ac yn darparu gwasanaethau sy'n creu cymunedau mwy cydlynol a llewyrchus yn ogystal â chefnogi economïau lleol.

Yn aml, cludiant cymunedol yw'r dewis gorau neu'r unig ddewis pan nad yw cludiant cyhoeddus yn cwrdd ag anghenion cymuned. Mewn llawer o achosion, mae cludiant cymunedol yn datblygu mewn ardal fel ymateb uniongyrchol i anghenion lleol sydd heb eu bodloni. Gall y broses o ymgynghori cymunedol sy'n greiddiol i ddatblygu cynllun cludiant cymunedol sefydlu cysylltiadau cryf a pharhaol gyda'r gymuned a hyd yn oed fod yn sylfaen ar gyfer gweithredu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol parhaus.

1.3 Dewisiadau o ran Cludiant Cymunedol

Mae cludiant cymunedol yn derm sy'n cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau cludo, pob un â'i weithrediad penodol ei hun a phob gwasanaeth wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae'r tabl isod yn disgrifio'r ystod o wasanaethau mae cludiant cymunedol yn eu cynnig. Nid yw pob gwasanaeth yn briodol ar gyfer pob sefyllfa; er mwyn i gynllun cludiant cymunedol lwyddo, mae'n bwysig adnabod y gwasanaeth mwyaf priodol i anghenion eich cymuned neu gymunedau.

Gwasanaeth	Disgrifiad
Cynlluniau ceir cymunedol	Mae gwirfoddolwyr yn defnyddio eu ceir eu hunain i gludo teithwyr, yn aml y rhai sy'n methu â theithio trwy ddulliau eraill oherwydd anabledd, salwch neu ddiffyg cludiant cyhoeddus. Mae gan rai gweithredwyr gerbydau (gan gynnwys cerbydau hygyrch) y mae modd eu darparu ar gytundeb 'gyrru eich hun'
Gwasanaethau o ddrws i ddrws a Galw'r Gyrrwr	Mae'r rhain yn wasanaethau i bobl sy'n methu â chyrchu gwasanaethau prif ffrwd neu yn ei chael hi'n anodd iawn gwneud hynny. Fel arfer, mae pobl yn cael eu codi o'u cartrefi a'u gadael wrth eu cyrchfan e.e. meddygfa neu'r ganolfan siopa. Bydd pob cerbyd yn cludo nifer o deithwyr yn mynd a dod o leoedd gwahanol. Mae'r rhain yn cael eu rhedeg o dan drwyddedau adran 19.
Cludiant grŵp	Gall darparwyr cludiant cymunedol ddarparu cerbydau (bysiau mini hygyrch yn aml) ar gytundeb llogi gan grŵp. Mae hyn yn golygu darparu cerbyd a gyrrwr i grwpiau a chlybiau cymunedol y mae angen iddyn nhw deithio gyda'i gilydd. Fel arall, gall grwpiau gwirfoddol ddefnyddio eu gyrwyr eu hunain a llogi'r cerbyd. Mae'r rhain yn cael eu gwneud o dan drwyddedau adran 19.

Gwasanaeth	Disgrifiad
Gwasanaethau bws cymunedol	Gall darparwyr cludiant cymunedol greu teithiau yn ôl amserlen yn debyg i deithiau bws cludiant cyhoeddus. Gelli'r weithredu ar lwybrau penodedig ond gallant gynnwys elfen o 'ymateb i'r galw' i gwrdd ag anghenion teithwyr penodol. Gellir gweithredu'r mathau hyn o wasanaethau, lle nad oes llwybr bws masnachol ar gael, fel arfer gan nad yw'n hyfyw i gwmni bysiau. Mae gwasanaethau masnachol cymunedol yn rhedeg o dan drwyddedau adran 22
Olwynion i'r Gwaith	Mae Sgwteri/Mopedau yn cael eu llogi neu eu benthyca ar gyfradd fforddiadwy i bobl (pobl ifanc yn aml) sy'n wynebu rhwystrau rhag gwaith, prentisiaethau neu hyfforddiant oherwydd ynysu daearyddol neu wasanaethau cludiant cyhoeddus nad ydynt ar waith pan fydd angen iddynt deithio (h.y. gwaith shifft). Mae'r cynlluniau hyn yn aml yn rhoi arweiniad a chymorth ychwanegol i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'w helpu i ddod o hyd i ateb parhaol i'w hanghenion o ran cludiant e.e. cymorth ariannol ar gyfer gwersi gyrru.
'Shopmobility'	Yn cynnig benthyca neu logi cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd i adael i deithwyr anabl fynd o gwmpas y siopau pan fyddan nhw'n ymweld â threfi lleol.
Broceriaeth cerbyd	Gall sefydliad cludiant cymunedol oruchwylio a rheoli rhannu cerbydau o'r fath (a all fod yn berchen i nifer o sefydliadau), er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohonynt a darparu gwasanaethau cludo ychwanegol i'r gymuned. Mae broceriaeth yn gweddu orau i sefyllfaoedd lle mae nifer o gerbydau at ddefnydd cymunedol yn bodoli (e.e. yn berchen i grwpiau cymunedol neu clybiau) ond mae'r cerbydau hyn yn segur am y rhan fwyaf o'r dydd.
Gwasanaethau dan gontract	Y rhan amlaf, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cludiant cartref-i'r-ysgol, cleifion nad ydynt yn rhai brys neu ofal cymdeithasol, wedi'u gweithredu dan gontract i awdurdodau lleol, ysgolion neu gyrff eraill. Maen nhw'n cael eu rhedeg dan drwyddedau adran 19.

2.0 Rhoi cychwyn arni

Mae un peth yn gyffredin i bob cynllun cludiant cymunedol; mae'r rhan fwyaf wedi cychwyn fel ymateb uniongyrchol i angen o ran cludiant a nodwyd yn y gymuned. Cafodd llawer o'r sefydliadau cludiant cymunedol sy'n bodoli heddiw eu cychwyn gan bobl leol a ddatblygodd eu sgiliau a'u gwybodaeth fel rhan o'r broses ymsefydlu. Mae cludiant cymunedol yn cynnig ffordd i gymunedau greu gwasanaeth cludiant wedi'i deilwra at anghenion lleol. Y cyfan sydd ei eisiau yw grŵp o bobl benderfynol ac ymroddedig sy am greu newid cadarnhaol i'w cymuned.

Os ydych chi'n darllen hyn, mae'n debyg eich bod wedi canfod angen o ran cludiant ac yn credu y gall cludiant cymunedol ateb hyn, ond efallai eich bod yn ansicr ynglŷn â sut i roi cychwyn arni? Mae'r wybodaeth ganlynol (adrannau 2.1 – 2.7) yn rhoi peth arweiniad ar sut i ddechrau ac mi fydd yn eich helpu i weithredu'n gadarnhaol o ran datblygu cynllun cludiant cymunedol. Os oes angen help a chymorth ychwanegol arnoch chi, cysylltwch â ni yn CTA Cymru.

2.1 Cam Un: Sefydlu gweithgor

Gan gymryd eich bod wedi nodi angen o ran cludiant nad yw'r gweithredwyr presennol yn medru mynd i'r afael ag ef (gan gynnwys eich cynllun cludiant cymunedol agosaf) ac mae'n ymddangos mai cynllun cludiant cymunedol newydd yw'r ateb mwyaf priodol, y peth cyntaf yw sefydlu gweithgor.

Mae'n bwysig treulio peth amser ac ymdrech i sefydlu gweithgor effeithiol a chynrychioliadol, gan fod hyn yn hwyluso pethau ac yn golygu llai o straen maes o law. Hefyd bydd gweithgor da yn sicrhau cefnogaeth gymunedol i'r cynllun, yn rhannu cyfrifoldeb ac yn sicrhau y sefydlir y cynllun mwyaf addas.

Bydd angen i chi gael cymaint o bobl â diddordeb ag sy'n bosibl o drawstoriad o'r gymuned i gymryd rhan yn y trafodaethau cychwynnol. Gallai cynrychiolaeth ar y gweithgor gynnwys unigolion â diddordeb o'r gymuned, grwpiau a sefydliadau cymunedol (hefyd yn cael eu nabod fel sefydliadau Trydydd Sector), grwpiau ffydd yn yr ardal, gweithredwyr CC presennol, y CTA Cymru a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol a/neu'r cyngor cymuned.

Unwaith i chi gael ymrwymiad gan bobl i gymryd rhan yn y gweithgor, mae'n bwysig i bawb o gwmpas y bwrdd rannu dealltwriaeth gyffredin o pam mae'r grŵp wedi cael ei sefydlu a'r hyn rydych chi'n ceisio ei gyflawni. Mae drafftio 'Cylch Gorchwyl' o gymorth mawr yn y cyfnod cynnar yma, gan nodi'n ffurfiol pam mae'r gweithgor wedi cael ei sefydlu ynghyd â nodau ac amcanion y gweithgor. Does dim angen i'r 'Cylch Gorchwyl' fod yn ddogfen hir ond dylai pawb yn y gweithgor gyfrannu at ei greu fel bod dealltwriaeth glir o bwrpas y gweithgor. Os oes angen, gall CTA Cymru roi cefnogaeth wrth ddrafftio'r cylch gorchwyl.

2.2 Cam Dau: Deall eich cymuned

Erbyn hyn mae gweithgor gennych – y cam nesaf yw asesu a rhoi tystiolaeth gywir am anghenion cludiant y gymuned. Gall pawb ar y gweithgor gytuno bod yna broblem o ran cludiant yn lleol ond mae'r cam yma'n ymwneud â chasglu tystiolaeth glir i brofi bod yr angen yn bodoli. Bydd osgoi'r cam yma yn ei gwneud hi'n anodd iawn i chi ddatblygu'r math iawn o wasanaeth cludiant cymunedol ac yn bendant yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddod o hyd i gyllid. Er mwyn cwblhau'r cam yma, dim ond dau ddarn allweddol o dystiolaeth y bydd angen i chi eu casglu:

1. Trefniadau cyfredol o ran cludiant
2. Anghenion cyfredol o ran cludiant.

Trefniadau cyfredol o ran cludiant:
Bydd angen i'r gweithgor ymchwilio ac adrodd ar y cludiant cyfredol sydd ar gael i'r gymuned (e.e. teithiau ac amserau bysiau, gwasanaethau cludiant cymunedol sydd eisoes ar gael, trenau, tacsis, unrhyw drefniadau rhannu ceir ffurfiol, bysiau mini

sy'n berchen i grwpiau cymunedol sydd ar gael i eraill a.a.). Os oes gennych chi weithgor sy'n cynrychioli trawstoriad da o'r gymuned, fe allech chi ddarganfod bod yr wybodaeth yma ar gael yn barod o gwmpas y bwrdd a bydd hyn yn hwyluso cwblhau'r cam yma.

Anghenion cyfredol o ran cludiant:
Hefyd bydd angen i chi osod yn glir yr anghenion o ran cludiant a mesur yr angen yna. Y ffordd orau o wneud hyn yw cynnal ymgynghoriad â'r gymuned. Gellir cyflawni hyn mewn cwpwl o ffyrdd fel dosbarthu a chasglu holiadur neu gynnal cyfarfod cyhoeddus. Chi fydd yn nabod eich cymuned orau ac mae'n bwysig dewis dull ymgynghori rydych chi'n gwybod y bydd pobl yn ymateb iddo. Fe'ch cynghorir hefyd i ystyried cymunedau cyfagos oherwydd y gallant hwy hefyd wynebu anawsterau tebyg ac fe all fod cyfleoedd i chi weithio gyda'ch gilydd.
(Mae CTA wedi datblygu holiadur drafft i ddadansoddi anghenion y mae modd ei addasu yn ôl y gymuned lle rydych chi'n byw (Atodiad A)).

Ysgrifennu adroddiad: Unwaith y byddwch wedi casglu'r wybodaeth am y cludiant cyfredol sydd ar gael a'r anghenion o ran cludiant, bydd angen i chi greu adroddiad ysgrifenedig. Dylai'r adroddiad osod a chrynhoi canlyniadau eich ymchwil yn glir. Bydd hyn yn troi'n ddeunydd cyfeirio gwerthfawr i'r gweithgor wrth i chi symud ymlaen, ond mae modd ei ddefnyddio mewn ffyrdd eraill hefyd fel rhoi tystiolaeth i gyd-fynd â cheisiadau am gyllid.

2.3 Cam Tri: Dewis y math gorau o wasanaeth cludiant cymunedol

Unwaith y byddwch wedi casglu'r wybodaeth o gam dau, bydd angen i'r gweithgor goladu a thrafod y casgliadau, nodi a mesur y bylchau rhwng y cludiant sydd ar gael ar hyn o bryd ac anghenion y gymuned o ran cludiant.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, bydd gennych dystiolaeth gadarn fydd yn hysbysu eich penderfyniadau o ran y gwasanaethau cludiant cymunedol mwyaf priodol a fydd yn gweddu i'ch sefyllfa chi (gw. adran 1.3). Gall CTA Cymru ddarparu adnoddau ychwanegol i'ch helpu i archwilio'r dewisiadau o ran cludiant cymunedol a amlinellir yn adran 1.3 ymhellach.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar y cludiant cymunedol sydd orau gennych, dylech ychwanegu adran olaf i'r adroddiad a grëwyd yng ngham dau (uchod), gan nodi'r ateb rydych chi wedi penderfynu arno ac esbonio pam mai dyma'r dewis sydd orau gennych.

2.4 Cam Pedwar: Pwy fydd yn rhedeg y gwasanaeth?

Ar ôl ystyried yr anghenion o ran cludiant lleol a nodi y gwasanaeth cludiant cymunedol mwyaf addas i'w ddatblygu, bydd angen i'r gweithgor ystyried sut y gellid gweithredu'r gwasanaeth. Ar y dechrau, mae hyn yn golygu penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i redeg y gwasanaeth. Gall y dewisiadau gynnwys:

- **Sefydliad sydd eisoes yn bod** – Gall fod sefydliad yn eich cymuned sydd eisoes mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â'r datblygu. Er enghraifft, sefydliad cludiant cymunedol sydd eisoes yn bod, neu sefydliad Trydydd Sector arall, neu efallai eich awdurdod lleol). Mantais y dewis hwn yw y gallai

datblygiadau pendant o ran y cynllun cludiant cymunedol newydd ddigwydd yn gymharol gyflym. Os mai dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio, mae angen i chi fod yn sicr y bydd y sefydliad yn medru ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol (o ran yr adnoddau sydd ar gael, y cyllid a'r amser sydd eu hangen).

- **Trefniant partneriaeth rhwng sefydliadau sydd eisoes yn bodoli** - lle nad oes gan sefydliad gapasiti dros ben i ymgymryd â'r datblygiad newydd ar ei ben ei hun, gall fod modd cyfuno adnoddau rhwng nifer o sefydliadau sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol gynnig cyfleuster depo i gerbydau, gallai sefydliad Trydydd Sector wneud rôl cydlynu a gallai partneriaid eraill gynnig eu gwirfoddolwyr. Os mai dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio, mae'n bwysig drafftio dogfen partneriaid a fydd yn cytuno ac yn gosod yn glir y prif gyfrifoldebau a disgwyliadau sydd ar bob partner er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth maes o law.
- **Sefydliad newydd** – Pan nad oes posibilrwydd o unrhyw sefydliadau yn gwneud prosiect cludiant cymunedol newydd, efallai bydd yn rhaid ystyried sefydlu sefydliad newydd sbon. Bydd hyn yn golygu penderfynu ar y math o sefydliad i'w sefydlu (e.e. Elusen, Cwmni Cyfyngedig drwy Warant ac ati), drafftio'r ddogfen lywodraethu, penodi bwrdd ymddiriedolwyr a pwyllgor rheoli a chyfansoddi/ymgorffori'r sefydliad newydd. Dylech fod yn ymwybodol fod sefydlu sefydliad newydd weithiau yn medru cymryd amser i'w gwblhau a allai olygu o bosibl oedi dros dro yn natblygiad y cynllun cludiant cymunedol. Fodd bynnag os mai sefydliad newydd yw'r dewis gorau, mae angen yr amser sydd yn glwm wrth hynny er mwyn creu'r math cywir o wasanaeth cludiant i'ch cymuned chi.

Ar sail eich amgylchiadau penodol chi, efallai byddwch yn medru nodi opsiynau eraill sydd heb eu rhestru uchod felly dewiswch yr ateb sy'n cynnig yr amgylchiadau gorau ar gyfer llwyddo. Hefyd dylech ystyried cam pump (isod) wrth benderfynu pwy sy'n rhedeg y gwasanaeth gan y gallai effeithio ar y costau cychwyn ac opsiynau cyllido yn y dyfodol.

2.5 Cam Pump: Sut caiff y gwasanaeth/sefydliad ei ariannu?

Ochr yn ochr â phenderfynu pwy fydd yn rhedeg y gwasanaeth, mae'n bwysig ystyried hefyd o ble daw'r arian i gychwyn a rhedeg y gwasanaeth. Er enghraifft, gallai sefydliad newydd ei chael hi'n haws dod o hyd i gyllid ond efallai gallai sefydliad sydd eisoes yn bodoli ei wneud yn rhatach.

Yn gyntaf oll, mae angen i chi wybod beth yw y costau perthnasol cyn i chi fedru penderfynu sut byddwch chi'n talu'r costau hynny. Mae'n debygol y bydd angen i chi lunio mwy nag un dadansoddiad o'r costau h.y. costau'r prosiect os caiff ei redeg gan sefydliad newydd o'u cymharu â chostau ei redeg gan sefydliad sydd eisoes yn bodoli. Bydd angen i chi restru costau uniongyrchol (e.e. prynu cerbydau, tanwydd, trwyddedau, yswiriant, costiau gwirfoddoli, cyflogau ayb.) a chostau anuniongyrchol (e.e. rhent, costau swyddfa, marchnata, gwasanaethau cyhoeddus ayb.). Mae'n bosibl mai creu datganiad llif arian fyddai'r ffordd orau o asesu'r goblygiadau o ran costau i'r dewisiadau y byddwch chi'n eu gwneud.

Trwy ddefnyddio llif arian, mae modd hefyd i chi ragweld y lefel a'r math o incwm y bydd y cynllun yn eu creu a thrwy hyn nodi a oes gan y cynllun y potensial i gyfro ei

gostau ei hun neu a fydd angen i chi fynd ar ôl incwm ychwanegol trwy bethau fel grantiau.

Pan fyddwch chi'n dechrau rhestru costau ac incwm posibl, mae'n **bwysig iawn** eich bod yn eu cadw nhw mor realistig ag sy'n bosibl. Mae yna demtasiwn naturiol i amcangyfrif costau'n rhy isel a chwyddo incwm yn ormodol i wneud i bethau edrych yn dda ond wrth wneud hynny, bydd yn creu problemau mawr maes o law a gallai hyd yn oed olygu bod eich cynllun yn methu. Os yw'n well gennych, gallwch greu senario sefyllfa waethaf a sefyllfa orau sy'n golygu gwaith ychwanegol ond mae'n rhoi ystod ehangach o amgylchiadau y gallwch seilio eich penderfyniadau arni.

Lle byddwch wedi nodi diffyg o ran cyllid, fe'ch cynghorir i gynllunio sut a phryd y byddwch yn dod o hyd i arian ychwanegol – rhywbeth a elwir hefyd yn strategaeth cyllido. Yn y pen draw gallai strategaeth cyllido gael ei chysylltu â chynllun busnes sy'n dangos yn glir sut bydd eich gwasanaeth yn gweithredu, sut a lle byddwch yn creu neu'n codi cyllid ac yn darparu cynlluniau wrth gefn fel bod gennych ddull gweithredu clir pe bai eich senario sefyllfa waethaf yn dod yn wir.

Gall yr agweddau ariannol beri cryn bryder i grwpiau sydd newydd eu ffurfio am resymau sy'n ddigon dealladwy. Fodd bynnag gall CTA Cymru roi cymorth i chi i gefnogi'r broses a'ch helpu i ddod o hyd i gyllidwyr addas i roi eich prosiect ar ei draed.

2.6 Cam Chwech: Datblygu Cynllun Gweithredu

Unwaith i chi gwblhau camau un i bump, mae'n debyg byddwch chi'n gweld bod y rhestr o bethau i'w gwneud yn mynd yn fwy ac yn fwy. Mae hyn yn ddigon cyffredin (ac i'w ddisgwyl) ac mewn gwirionedd, mae'n dangos bod gennych ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei wneud.

Er mwyn eich helpu i reoli'r holl dasgau hyn, gallwch greu cynllun gweithredu. Mae cynllun gweithredu'n ffordd syml iawn o nodi'n fanwl yr hyn y mae angen ei wneud, erbyn pryd mae angen ei wneud, ym mha drefn a gan bwy. Wedyn gallwch ddefnyddio'r cynllun gweithredu i fonitro cynnydd a chadw popeth yn ôl yr amserlen. Gall cynlluniau gweithredu fod yn amlbwrpas a dylid eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan ychwanegu pwyntiau gweithredu newydd yn ôl yr angen.

Gellir dod o hyd i dempled cynllun gweithredu yn Atodiad B a gallwch ei addasu yn ôl eich anghenion penodol chi. Mae cofnodion enghreifftiol wedi cael eu hychwanegu i Atodiad B i ddangos y math o wybodaeth i'w chynnwys ond gallai manylion eich cynllun gweithredu chi fod yn wahanol iawn. Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn egluro penawdau'r cynllun gweithredu yn Atodiad B, ond mae angen i'r union gynnwys adlewyrchu eich sefyllfa benodol chi:

- **Nod/Amcan** – Yn y golofn yma, dylid cynnwys y maes gwaith, nod neu amcan cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan y gweithredu ffocws a chyd-destun, e.e. dod o hyd i wirfoddolwyr, ysgrifennu cynllun busnes, materion cyfreithiol, dod o hyd i adeiladau ayb. Efallai byddwch chi am ddefnyddio penawdau Marc Ansawdd CTA fel penawdau'r golofn yma (gw. 2.7 isod) i'ch helpu i ddatblygu cynllun sy'n annog safonau arfer gorau o'r cychwyn cyntaf.

- **Gweithredu i'w gwblhau** – Wedi'i seilio ar Nod/Amcan, ystyriwch y gwahanol gamau y bydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod neu'r amcan yna. Os oes angen, grwpiwch gamau perthynol i greu pwyntiau gweithredu amlwg y mae modd eu rhoi i rywun eu cwblhau fel bod ganddynt well gorolwg o bwynt gweithredu sy'n golygu gwneud penderfyniadau gwell e.e. costau rhedeg, dyfynbrisiau, ymgysylltu â rhanddeiliaid ayb.
- **Rheswm dros weithredu** – Does dim angen cynnwys hyn bob tro ond fe all fod yn ddefnyddiol atgoffa pawb pam mae gweithredu'n bwysig. Mae hyn o gymorth arbennig os byddwch yn dirprwyo pwyntiau gweithredu i bobl nad oedden nhw'n rhan o greu'r cynllun gweithredu fel eu bod yn deall sut bydd eu gwaith yn cyfrannu at y darlun ehangach.
- **Cyfrifoldeb** – Neilltuwch bob pwynt gweithredu i berson neu bersonau a enwir os oes modd. Mae hyn yn gwneud y cyfan yn gliriach ac yn osgoi unrhyw ddryswch o ran pwy sy'n gwneud beth. Mae'n bwysig cydnabod nad y person a enwir o angenrheidrwydd yw'r person fydd yn gwneud y gwaith mewn gwirionedd ond nhw yn bendant fydd y person sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gweithredu a rhoi gwybod am sut mae'n dod ymlaen. Gwnewch yn siŵr fod y person yn gwybod am y cyfrifoldeb a roddir iddynt ac yn cytuno iddo; wedyn gellir cyfiawnhau eu gwneud yn atebol amdano a gofyn iddynt esbonio pam na chafodd pwynt gweithredu ei gwblhau mewn pryd.
- **Cost** – Dylech gynnwys unrhyw gostau sydd yn glwm wrth weithredu penodol. Hyd yn oed os na fyddwch yn gwario arian go iawn, yn aml ystyrir amser yn gost oherwydd fod angen i chi sicrhau bod gan bobl amser i gwblhau'r gweithredu. Ar ben hynny os oes gennych staff sy'n cael eu talu'n gweithio ar y pwyntiau gweithredu yna mae cost yn glwm wrth eu hamser sy'n cael ei hadlewyrchu yn eu cyflog. Trwy restru punnoedd (a/neu amser), gallwch dracio faint bydd yn ei gostio i chi wneud y cynllun gweithredu.
- **Erbyn Pryd** – Nodwch amserlen realistig ar gyfer pob pwynt gweithredu gan mai holl bwrpas y cynllun gweithredu yw cadw pethau'n symud. Bydd gosod amserlen afrealistig yn tanseilio gwerth eich cynllun gweithredu a gallai roi pwysau diangen ar bawb a/neu achosi i'ch prosiect golli ffocws. Mae nodi misoedd cwblhau penodol yn hytrach na dyddiadau'n rhoi peth hyblygrwydd. Fodd bynnag os oes dyddiad pendant ar gyfer cwblhau gweithredu (h.y. terfyn amser ar gyfer cais am gyllid) gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r dyddiad yna'n glir yn y cynllun gweithredu. Gallech ychwanegu colofn arall i'r tabl i gynnwys dyddiadau dechrau pob pwynt gweithredu a bydd y rhain ynghyd â'r dyddiad cwblhau arfaethedig yn gosod ystod o ddyddiadau ar gyfer pob darn o waith.

Dylech adolygu cynnydd y cynllun gweithredu'n rheolaidd i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud ac i drafod unrhyw faterion a all fod yn rhwystro cynnydd. Fel arfer mae cyfarfodydd adolygu misol yn ddigon oni bai bod eich amserlen yn dynn iawn. Yn yr achos yna efallai byddai angen adolygu'n wythnosol (neu hyd yn oed yn ddyddiol). Barnwch chi pa mor aml y dylech chi adolygu'r cynllun gweithredu.

Os gwelwch nad yw'ch cynllun gweithredu yn gweithio i chi, mae'n debyg fod angen i chi ei newid rywfaint e.e. rhannwch y gweithredu yn dasgau llai, ymestynnwch yr amserlen neu gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cyfrifoldebau i bobl â'r sgiliau (a'r amser) priodol i'w cwblhau.

2.7 Cam Saith: Sicrhau Ansawdd

Fel mae'r enw'n ei awgrymu, mae 'Sicrhau Ansawdd' yn rhoi lefel o warant i eraill eich bod yn gweithredu gwasanaeth o ansawdd. Mae cwsmeriaid a chyllidwyr yn edrych yn fwyfwy am ryw fath o farc ansawdd sy'n rhoi gwybod bod y gwasanaeth a ddarperir (neu'r sefydliad sy'n chwilio am gyllid) yn broffesiynol, yn ddibynadwy ac yn ddiogel.

Am y rheswm yma, mae CTA y DU wedi datblygu 'Safon Ansawdd Perfformiad' ar gyfer y sector cludiant cymunedol. Hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu gweithio tuag at ennill Marc Ansawdd CTA, byddem yn annog pob gweithredwr cludiant cymunedol i ystyried yr wyth safon ansawdd a ddangosir isod yn ofalus a gweithio tuag atyn nhw.

Dyma'r wyth safon ansawdd:

Safon 1:	Mae'r sefydliad wedi'i gyfansoddi'n briodol ac yn atebol;
Safon 2:	Mae'r sefydliad wedi penodi un neu fwy o aelodau staff neu bwyllgor fel 'person(au) cymwys' ac wedi derbyn hyfforddiant priodol;
Safon 3:	Mae gan y sefydliad systemau, polisïau a gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac yn diwallu anghenion/disgwyliadau cwsmeriaid;
Safon 4:	Mae'r sefydliad yn gweithredu cerbydau'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn unol â rheoliadau ac arfer da;
Safon 5:	Mae gan y sefydliad systemau mewn lle i sicrhau bod yr holl gerbydau a weithredir ar wasanaethau yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas i'r ffordd fawr;
Safon 6:	Mae'r sefydliad yn sicrhau bod pob aelod staff a gwirfoddolwr yn cael eu recriwtio a'u goruchwylio'n iawn ac yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau;
Safon 7:	Mae'r sefydliad yn gweithredu gweithdrefn effeithiol ar gyfer asesu a rheoli risgiau o ran diogelu pawb;
Safon 8:	Pan gaiff gwasanaethau eu gweithredu yn defnyddio ceir y gyrwyr eu hunain, mae'r sefydliad yn sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â gofynion o ran deddfwriaeth briodol ychwanegol ac arfer da.

3.0 Cefnogaeth a chymorth pellach

Canllaw yn unig yw'r pecyn cymorth yma ac mae pob sefyllfa'n wahanol. Felly mi allech ganfod bod materion eraill yn codi wrth ddatblygu eich cynllun cludiant cymunedol nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y pecyn cymorth yma. Os oes angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol, cysylltwch â ni yn:
CTA Cymru, Canolfan Forge Fach, Heol Hebron, Clydach, Abertawe, SA6 5EJ
Ffôn. 01792 844290

Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Community Transport Association

ATODIAD A

Holiadur Anghenion o ran Cludiant

Mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA Cymru) yn gweithio gyda [RHOWCH YR AWDURDOD LLEOL I MEWN] i asesu anghenion cludiant sydd heb eu bodloni ar gyfer [ ]. Yn dilyn trafodaeth a dau gyfarfod gydag amrywiaeth eang o grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl a hŷn yn yr ardal, cytunwyd bod yna angen sylweddol. Fodd bynnag, mae eisiau mwy o fanylion am y mathau o deithiau a chyrchfannau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr posibl y gwasanaeth sydd heb eu darparu ar hyn o bryd gan ddarpariaeth cludiant arall yn yr ardal.
Nod yr arolwg yma yw ceisio asesu'n well lefelau'r galw a'r mathau o gludiant sydd eu hangen e.e. cynlluniau ceir gwirfoddol, Galw'r Gyrrwr neu gludiant grŵp. Caiff yr holl wybodaeth ei chasglu'n anhysbys a'i thrin yn gyfrinachol.

Nodwch ym mha dref neu bentref rydych chi'n byw, os gwelwch yn dda.	
Os ydych chi'n byw yn [ ], nodwch ym mha ardal o'r dref.	
Pa mor aml y mae angen i chi deithio i fynd i wasanaethau neu weithgareddau cymdeithasol bob wythnos?	Unwaith y mis ☐ Unwaith y pythefnos ☐ 1-2 waith yr wythnos ☐ Arall (esboniwch os gwelwch yn dda):
Pa wasanaethau yn [ ] ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd neu hoffech chi eu defnyddio'n rheolaidd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.	Siopa ☐ Meddyg/apwyntiad meddygol ☐ Ymweld â theulu a ffrindiau ☐ Canolfan ddydd ☐ Gweithgaredd grŵp ☐ Arall (esboniwch os gwelwch yn dda):
Ydych chi'n gweithio yn ardal [ ] ar hyn o bryd?	Ydw ☐ Nac ydw ☐ Os 'ydw', a hoffech chi ei wneud, nodwch enw/lleoliad eich cyflogwr:
Oes gennych unrhyw anhawster o ran teithio i'ch gweithle e.e. patrymau shifftiau afreolaidd neu wasanaethau	Oes ☐ Nac oes ☐ Os 'oes', esboniwch os gwelwch yn dda:

bysiau lleol heb fod yn gyfleus neu'n hygyrch?	
Pa adegau yn ystod y dydd mae angen teithio cyffredinol rheolaidd arnoch chi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.	Yn gynnar yn y bore (cyn 9:00) ☐ Bore (9:00 – 12:00) ☐ Prynhawn (13:00 – 17:00) ☐ Yn hwyr yn y prynhawn (17:00 – 19:00) ☐ Gyda'r nos (ar ôl 19:00) ☐
Oes angen i chi deithio dros y Sul?	Oes ☐ Nac oes ☐
Pa ddull/ddulliau cludo ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.	Tacsi ☐ Trên ☐ Bws ☐ Cynllun ceir cymunedol ☐ Rwy'n dibynnu ar ffrindiau/teulu ☐ Arall (esboniwch os gwelwch yn dda):
Pa anghenion sydd gennych o ran teithio sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio cludiant cyhoeddus?	Rwy'n defnyddio cadair olwyn ☐ Rwy'n teithio gyda gofalwr ☐ Rwy'n teithio gyda chi tywys ☐ Rwy'n methu â cherdded mwy na 200m heb help ☐ Arall (esboniwch os gwelwch yn dda):
Os nad ydych chi'n defnyddio tacsis neu drenau ar gyfer eich anghenion teithio, esboniwch pam os gwelwch yn dda.	
Os nad ydych chi'n defnyddio bysiau ar gyfer eich anghenion teithio, esboniwch pam. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.	Dydy'r bws lleol ddim yn teithio i ble rwy eisiau mynd ☐ Dydy'r bws ddim yn mynd ar yr amser pan fydd angen i mi deithio ☐ Rwy'n methu â chyrraedd y safle bws ☐ Rwy'n methu â mynd ar fws ar fy mhen fy hun ☐ Rwy'n methu â fforddio'r gost ☐ Arall (esboniwch os gwelwch yn dda):
Gofynnir i chi nodi a oes angen i chi	Gwasanaeth:

ddefnyddio gwasanaeth sy ddim ar gael yn [ ] ar hyn o bryd.	Lleoliad:
Er mwyn dod i ddeall anghenion/gofynion defnyddwyr gwasanaeth posibl, byddem yn gwerthfawrogi pe baech chi'n nodi eich ystod oedran:	18 – 30 ☐ 31 – 40 ☐ 41 – 50 ☐ 51 – 60 ☐ 61 – 70 ☐ 71 – 80 ☐ 80+ ☐
Oes yna unrhyw sylwadau pellach yr hoffech chi eu gwneud ynglŷn â'ch anghenion o ran cludiant sydd heb gael eu cynnwys yn y cwestiynau uchod?	

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg.

Dylid anfon yr holiaduron yn ôl at:

[dylid nodi cyfeiriad addas yma]

Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Community Transport Association

Atodiad B

Templed Cynllun Gweithredu

Noder: mae'r cofnodion a gwblhawyd isod at ddibenion enghreifftiol yn unig ac ni fwriedir iddynt gael eu hystyried fel enghraifft o gynllun gweithredu a gwblhawyd yn llawn.

Nod/Amcan	Gweithredu i'w gwblhau	Rheswm dros weithredu	Cyfrifoldeb	Cost	Erbyn Pryd
Dod o hyd i gerbyd ar gyfer y gwasanaeth CC newydd	Cael dyfynbrisiau ar gyfer prynu bws mini	Nodi anghenion o ran cyllid	Alun	Dim cost ar wahân i amser	Mehefin 2015
	Cyfrifo costau rhedeg bysiau mini am 1 flwyddyn weithredu (tanwydd, yswiriant, trwydded, cynnal a chadw)	Darparu gwybodaeth i'r gweithgor a nodi gofynion o ran cyllid	Sarah	Dim cost ar wahân i amser	Mehefin 2015
	Ymchwilio ac archwilio opsiynau o ran rhoi lle i gerbyd newydd gan gynnwys costau ychwanegol	Dod o hyd i le diogel a chadarn i gadw'r cerbyd pan na chaiff ei ddefnyddio.	Maggie	Amser gwirfoddolwr	Mehefin 2015
	Penderfynu ar y dewis sy'n cael ei ffafrio o ran bws mini wedi'i seilio ar yr wybodaeth uchod.	Dewis cerbyd addas i'r gwasanaeth sydd hefyd yn gost effeithiol	Gweithgor	Cyllideb o £15k	Gorffennaf 2015
	Gwneud cais i'r Loteri Fawr ac i'r Awdurdod Lleol am gyllid	Dod o hyd i gyllid grant i brynu a gweithredu'r cerbyd am 2 flynedd.	Alun a Maggie	Amser gwirfoddolwr	Awst 2015
	Prynu'r bws mini a dod o hyd i rywle i'w gadw	Asedau allweddol er mwyn medru gweithredu'r cynllun CC.	Cadeirydd	Cyllideb o £20k (=£15k cerbyd, £5k cadw'r cerbyd)	Ionawr 2016
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid	Nodi'r prif randdeiliaid	Bronwen		Mehefin 2015
	Cynllunio a chynnal digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid	Dod o hyd i gefnogaeth am y cynllun newydd gan randdeiliaid (e.e. llythyron cefnogaeth)	Cadeirydd/ Gweithgor.	£210 (llogi ystafell ac arlwyo)	Gorffennaf 2015